

Disgrifiad Swydd: Cydlynnydd Allgymorth ac Ymgysylltu Rhanbarthol Cymru

Lleoliad:	De Cymru (gweithio o'r cartref), gan deithio i Ganolfan Cymru ar gyfer Anafiadau i Linyn y Cefn yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau ac ar draws de a chanolbarth Cymru yn ôl yr angen. Teithio achlysurol i swyddfa Back Up yn Wandsworth, Llundain
Yn atebol i:	Arweinydd Tîm Allgymorth ac Ymgysylltu
Prif randdeiliaid:	Staff y ganolfan anafiadau i linyn y cefn a'r ysbyty, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, partneriaid cymunedol ac elusenol, gwirfoddolwyr a chydweithwyr ar draws y tîm Allgymorth ac Ymgysylltu.

Pwrpas y rôl:

Galluogi pobl y mae anaf i linyn y cefn yn effeithio arnynt i wireddu eu potensial drwy arwain perthnasoddd Back Up â chanolfan(nau) anafiadau i linyn y cefn, ysbytai a lleoliadau gofal iechyd eraill, partneriaid a sefydliadau y mae'r bobl hyn yn rhyngweithio â nhw. Bydd y rôl yn cydlynu ein holl weithgareddau yn y rhanbarth, yn datblygu ac yn rheoli'r llif o bobl sydd angen gwasanaethau Back Up, yn recriwtio gwirfoddolwyr ac yn trefnu gweithgareddau sy'n cefnogi cynaliadwydd parhaus Back Up a'i wasanaethau.

GWERTHOEDD

Mae ein gwerthoedd yn ganolog i'n dull gweithredu:

Rydym yn croesawu her:

Mae her yn ganolog i'n dysgu a'n twf; mae'n ein helpu i ennill gwybodaeth a sgiliau. Drwy ddod o hyd i ffyrdd o oresgyn heriau a symud ymlaen, rydym yn ennill ymdeimlad o gyflawniad, gan ein cefnogi i wireddu ein potensial llawn.

Rydym yn cael hwyl:

Credwn fod cael hwyl yn ein galluogi i gysylltu ag eraill, gan agor cyfleoedd i ddatblygu, cyflawni a chael y gorau o fywyd, a dangos bod dyfodol cadarnhaol ar ôl anaf i linyn y cefn.

Rydym yn adeiladu cymunedau cynhwysol:

Rydym yn cyflawni mwy dros bobl y mae anaf i linyn y cefn yn effeithio arnynt pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd. Rydym yn cydweithredu ac yn mabwysiadu dull cynhwysol yn ein gwaith. Rydym yn croesawu amrywiaeth, gan weithio gyda chefnogi unigolion, grwpiau a'r gymuned ehangach o bobl ag anafiadau i linyn y cefn, a dod â phobl ynghyd.

Mae gennym uchelgais dros ein gilydd:



Anghenion pobl ag anaf i llyn y cefn a'u teuluoedd sy'n ein sbarduno. Rydym yn frwd dros ein gwaith ac yn ymdrechu i fod y gorau. Rydym yn gosod safonau uchel ac yn gweithio'n galed i'w cyrraedd. Rydym yn rhagweithiol, yn gwthio'r ffiniau, yn rhoi cynnig ar ddulliau newydd ac yn dysgu'n gyflym. Rydym yn cydnabod nad oes rhaid i fethiant olygu colled, ond y gall fod yn gyfle i dyfu. Rydym yn gwrandao ar yr hyn y mae pobl y mae anaf i llyn y cefn yn effeithio arnynt yn ei ddymuno, ac yn ceisio ymatebion arloesol yn seiliedig ar eu hadborth.

CYFRIFOLDEBAU:

Allgymorth, Sgiliau Cadair Olwyn ac Ymgysylltu Ehangach

- Ymgysylltu â'r ystod ehangaf bosibl o bobl ag anaf i llyn y cefn i gofrestru ar gyfer cyswllt pellach â Back Up, drwy drefnu a/neu ddarparu sesiynau hyfforddi sgiliau cadair olwyn a sgysiau i gleifion a theuluoedd yng nghanolfan anafiadau i llyn y cefn y rhanbarth, mewn ysbytai cyffredinol a gyda phartneriaid neu leoliadau allweddol eraill a nodir.
- Cydlynu, cefnogi a rheoli hyfforddwyr gwirfoddol sy'n helpu i ddarparu sesiynau a siarad â chleifion a theuluoedd.
- Arwain, cynnal a datblygu perthnasoedd gwaith cryf ac effeithiol ag ystod eang o weithwyr ieuchyd proffesiynol a chynrychiolwyr elusennau eraill, er enghraifft drwy gyflwyniadau, galwadau a chyfarfodydd, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael cymorth di-dor.

Cyswllt Rhagweithiol â Phobl y Mae Anaf i Llyn y Cefn yn Effeithio Arnynt

- Cynnal a chefnogi perthnasoedd â nifer fawr o bobl y mae anaf i llyn y cefn yn effeithio arnynt (oedolion, plant a phobl ifanc a'u rhieni) drwy gyswllt rhagweithiol rheolaidd. Gall hyn ddigwydd wyneb yn wyneb yn y ganolfan anafiadau i llyn y cefn, mewn lleoliadau eraill, mewn digwyddiadau, dros y ffôn neu drwy ryngweithio arall.
- Archwilio eu teimladau, eu dymuniadau a'u hanghenion, a darparu cymorth gan gymheiriaid wedi'i deilwra i'w helpu i deimlo eu bod yn cael cefnogaeth, i gael mynediad at wasanaethau perthnasol gan Back Up ac eraill drwy atgyfeiriadau rhagweithiol, ac i ddod yn fwy ymwybodol o'r posibilïadau sydd mewn bywyd ar ôl anaf i llyn y cefn.

Rhwydweithio, Partneriaethau a Chynaliadwyedd

- Datblygu a chynnal map o'r manau cyswllt yn y rhanbarth lle bydd pobl ag anaf i llyn y cefn yn dod i gysylltiad â gwasanaethau.
- Datblygu partneriaethau, llwybrau atgyfeirio a phrosesau cyfeirio at wasanaethau er mwyn ymestyn cyrhaeddiad y tu hwnt i'r ganolfan anafiadau i llyn y cefn.
- Datblygu a rheoli rhwydwaith o wirfoddolwyr sy'n llysgennad cymunedol i gefnogi gwaith ehangach a chynaliadwyedd Back Up drwy godi arian a gweithgareddau cysylltiedig eraill.
- Arwain y gwaith o annog gweithgareddau codi arian lleol, gan weithio tuag at dargedau incwm ehangach sy'n cefnogi cynaliadwyedd parhaus.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Eraill

- Cadw cofnodion cywir ar y gronfa ddata.
- Gweithio fel rhan o dîm, gan ymgynghori ag eraill i sicrhau eich bod yn rhoi ac yn derbyn cymorth o ansawdd uchel.
- Rhoi gwybod i Back Up am y materion sy'n effeithio ar y bobl rydych yn eu cefnogi ac am ddatblygiadau yn y ganolfan anafiadau i llyn y cefn, ysbytai cyffredinol a lleoliadau eraill.
- Cyfrannu at gynllunio a gweithgareddau'r tîm.
- Rheoli'r gyllideb sy'n ymwneud â gweithgareddau yn eich rhanbarth.
- Helpu i recriwtio gwirfoddolwyr newydd yn ôl yr angen er mwyn sicrhau tîm amrywiol sy'n cynrychioli Back Up.
- Dyletswyddau eraill yn ôl gofynion Arweinydd y Tîm Allgymorth ac Ymgysylltu Rhanbarthol.



Nid yw'r rhestr uchod yn unigryw nac yn gynhwysfawr, a bydd gofyn i ddeiliad y swydd gyflawni dyletswyddau y gellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt fod o fewn cwrmpas y rôl hon.

MANYLEB YR UNIGOLYN:

Hanfodol:

- Profiad o weithio i gefnogi pobl agored i niwed i gyflawni nodau/symud ymlaen mewn bywyd
- Sgiliau rhyngpersonol rhagorol a'r gallu i uniaethu â phobl ar bob lefel, yn fewnol ac yn allanol
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol
- Safon uchel o sgiliau TG, gan gynnwys profiad o ddefnyddio cronfeydd data a MS Office
- Hunan-gymhellant; trefnus iawn ac yn gallu rheoli eich llwyth gwaith eich hun
- Dull creadigol a rhagweithiol o ymdrin â phob agwedd ar waith, gydag agwedd gadarnhaol a pharod i weithredu, yn unol â gwerthoedd yr elusen
- Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Parch at gyfrinachedd
- Addas i weithio'n ddiogel ac yn briodol gyda phlant a phobl agored i niwed
- Agwedd gref tuag at waith tîm, gyda dull hyblyg ac addasadwy o ymdrin â gofynion gwaith ar draws y sefydliad cyfan; person sy'n mwynhau gweithio gyda phobl
- Parch at eraill; gallu gweithio mewn ffordd sy'n parchu amrywiaeth ac yn gwerthfawrogi cydraddoldeb
- Gwrandäwr rhagorol, cynnes ac empathig, gyda pharch at bawb. Yn gallu bod yn ddiduedd a chanolbwytio ar yr unigolyn a'i anghenion
- Yn barod ac yn gallu teithio a gweithio ambell noson a phenwythnos, gan gynnwys aros dros nos
- TGAU Mathemateg a Saesneg gradd A–C neu gymhwyster cyfatebol

Dymunol:

- Person ag anaf i linyn y cefn neu aelod o'r teulu
- Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr a'u cefnogi
- Profiad o weithio gyda phobl sydd wedi profi trawma
- Sgiliau cyflwyno a'r gallu i reoli grŵp
- Dull rhagweithiol o ymdrin â'ch anghenion cymorth, iechyd a lles eich hun
- Dealltwriaeth o anghenion pobl sy'n addasu i fywyd gydag anaf i linyn y cefn

